# Canllaw Cyrff Dyfarnu i QiW

## - Ychwanegu ac Archifo Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill i QiW

Gorffennaf 2020

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
2. Ychwanegu Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill 4
3. Archifo Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill 9
4. Cymorth pellach 10

# 1. Cyflwyniad

**Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill ar QiW**

QiW yw'r gronfa ddata o gymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru, sy'n eiddo i Cymwysterau Cymru ac sy’n cael ei rheoleiddio ganddynt.

Ar hyn o bryd, dim ond cymwysterau Cymeradwy neu Ddynodedig, hynny yw pob cymhwyster sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus i ddysgwyr dan 19 oed, y gellir eu gweld yn gyhoeddus ar QiW. Fodd bynnag, o fis Hydref 2020, byddwn yn gwneud pob cymhwyster rheoleiddiedig, gan gynnwys cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill nad ydynt yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus ar gyfer dysgwyr dan 19 oed, ar gael i’w gweld yn gyhoeddus i bob defnyddiwr QiW.

Er mwyn sicrhau bod cofnodion eich cymwysterau yn gywir ar QiW, rydym wedi ychwanegu swyddogaeth newydd i'r gronfa ddata. Bydd hyn yn eich galluogi i ychwanegu ac archifo cymwysterau rheoleiddiedig Eraill eich hun pan fyddwch wedi mewngofnodi i QiW. Gweler y manylion isod am ganllawiau ar sut i ychwanegu ac archifo cymwysterau ar QiW.

# 2. Ychwanegu Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill ar QiW

1. Mewngofnodwch i QiW ac yna dewiswch ‘Creu’ (‘Create’) o’r ddewislen uchaf.




2. Llenwch y wybodaeth ym mhob un o’r meysydd gorfodol (Teitl y Cymhwyster, Lefel y Cymhwyster, Math o Gymhwyster, Maes pwnc sector, Maes is-sector a blwch ticio cadarnhad).

   Nid yw’r meysydd eraill yn orfodol; ond efallai y bydd Corff Dyfarnu am lenwi’r manylion pellach ar gyfer y meysydd hyn hefyd os yw’r wybodaeth ar gael ganddynt.






3. Ar ôl llenwi'r meysydd gofynnol, cliciwch ar 'Cyflwyno' i anfon y cymhwyster Rheoleiddiedig Arall i QiW.

   Fel arall, dewiswch 'Cadw' i gadw'r data a gofnodwyd eisoes a dychwelyd i'w gyflwyno yn ddiweddarach.

4. Os oes gwallau neu ddata ar goll o'r cyflwyniad, bydd hysbysiad yn ymddangos mewn coch ar frig y cymhwyster.

   Bydd meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt yn cael eu hamlygu mewn coch, fel y dangosir yn yr enghraifft isod:




5. Unwaith y bydd y botwm ‘Cyflwyno’ wedi’i glicio a bod y meysydd wedi cael eu derbyn, fe’ch hysbysir bod y cymhwyster wedi ei gyflwyno’n llwyddiannus i QiW ynghyd â’r rhif cymhwyster sydd wedi’i aseinio i’r cymhwyster hwnnw.



6. Yna dylai'r wybodaeth a gyflwynir fod yn weladwy i'r Corff Dyfarnu ar QiW:




7. Gall Cyrff Dyfarnu hefyd chwilio am y cymhwyster Rheoleiddiedig Arall a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r cyfleuster chwilio a theipio rhif y cymhwyster:





## Chwilio cymwysterau - Canlyniadau

Allforio I CSV | Mireinio'r meini prawf

**Meini Prawf Cyfredol:**

- Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC = COO/4146/1

Dangos 25 cofnod

| Rhif Cymeradwyo/Dynodi CC | Rhif Cyfeirnod Ofqual | Corff Dyfarnu | Lefel y cymhwyster | Cymhwyster is-lefel | Math o cymhwyster | Teitl y cymhwyster | Iaith | Statws | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| COO/4146/1 | | TAB - Test Awarding Body | Lefel 3 | | AHGC | Diploma Lefel 3 mewn Cymhwyster Prawf<br>*Level 3 diploma in Test Qualification* | Saesneg-Cymraeg | Ar gael | Gweld |

Dangos 1 i 1 o 1 cofnod

Blaenorol 1 Nesaf



Cymwysterau yng Nghymru

Chwilio | Creu | Creu amrywiol | Trac | Olrhain Ceisiadau i Ddiwygio | Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill | Statement

Chwilio cymwysterau › Canlyniadau › Gweld cymhwyster

## Gweld cymhwyster

### Diploma Lefel 3 mewn Cymhwyster Prawf

### *Level 3 diploma in Test Qualification*

**Manylion sylfaenol y cymhwyster**

| | |
|---|---|
| Math o adolygiad | Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill |
| Dynodwr Cymhwyster Unigryw | COO/4146/1 |
| Wedi'I gynnig yn Lloegr | Na |
| Rhif y cymhwyster | *Heb ei osod* |
| Corff Dyfarnu | TAB - Test Awarding Body |
| Teitl Cymraeg y cymhwyster | Diploma Lefel 3 mewn Cymhwyster Prawf |
| Teitl saesneg y cymhwyster | Level 3 diploma in Test Qualification |
| Lefel y qymhwyster | Lefel 3 |
| Is-lefel y cymhwyster | *Heb ei osod* |
| Math o gymhwyster | AHGC |
| Maes pwnc sector (SSA) | 13. Addysg a hyfforddiant |

# 3. Archifo Cymwysterau Rheoleiddiedig Eraill ar QiW

1. Mewngofnodwch i QiW a chwiliwch am y Cymhwyster Rheoleiddiedig Arall yr ydych am ei archifo (gweler y cam blaenorol ar chwilio).

   Pan fyddwch yn gweld y cymhwyster, byddwch yn gweld dau fotwm opsiwn ar frig ochr dde eich sgrin.

   Cliciwch ‘Archifo’r cymhwyster’ (‘Archive the qualification’) i ddechrau’r broses archifo.




2. Bydd hysbysiad naid yn ymddangos yn gofyn i chi gadarnhau nad yw archifo’r cymhwyster hwn yn effeithio ar unrhyw ddysgwyr.

   I gadarnhau’r datganiad, cliciwch ‘Archifo’ (‘Archive’).



Fel arall, os na allwch gadarnhau’r datganiad, cliciwch ‘Canslo’ (‘Cancel’).

3. Os dewisoch chi ‘Archifo’ (‘Archive’) bydd hysbysiad naid yn ymddangos yn cadarnhau bod y cymhwyster Rheoleiddiedig Arall wedi’i archifo’n llwyddiannus.




# 4. Cymorth Pellach

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch QiW neu Gymwysterau Rheoleiddiedig Eraill, cysylltwch â recognitionandapproval@qualificationswales.org

Fel arall, cysylltwch â 0333 077 2701 a gofyn am gael siarad ag aelod o'r Tîm Cymeradwyo a Dynodi.

Adeilad Q2
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR

© 2020 Cymwysterau Cymru